

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd rhesymol er gwaethaf newidiadau sylweddol sy'n parhau ymhlith yr uwch reolwyr a chyfnod hir o ansicrwydd.

Oedolion

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy ailfodelu bwrdd y rhaglen gofal cymdeithasol i oedolion wedi galluogi'r cyngor i nodi meysydd i'w datblygu, neilltuo tasgau a monitro cynnydd yn erbyn ystod eang o ddatblygiadau i'r gwasanaethau. Mae'r broses hon yn sicrhau bod gwasanaethau'n gwella ar draws y gwasanaethau i oedolion.

Mae trefniadau comisiynu a chontractio cryf ar waith ynghyd ag ymagwedd gadarn tuag at ddiogelu oedolion. Mae'r cyngor yn parhau i fod yn ysgogwr allweddol yn y cydweithio sy'n digwydd yn rhanbarth Bae'r Gorllewin.

Plant

Mae'r gwelliant ym mherfformiad y gwasanaethau i blant wedi parhau er gwaethaf nifer uchel, a nifer cynyddol, o blant sy'n derbyn gofal. Mae nifer o brosiectau ar waith i ymateb i'r her a ddaw yn sgil y cynnydd hwn gan gynnwys gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal a chynyddu nifer ac ystod y lleoliadau lleol sydd ar gael. Bydd llwyddiant y mentrau hyn yn allweddol i welliant cyffredinol ansawdd y gwasanaeth i blant a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn rhoi darlun realistig o lwyddiannau'r cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Mae'n pwysleisio'r gwaith y mae angen ei wneud i wella gwasanaethau ac yn rhoi tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei wneud i gyflawni hyn. Mae'n ddarlun cywir o'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Newid yn yr arweinyddiaeth ac ansicrwydd sy'n parhau.
- Lefel gwytnwch penaeithiad gwasanaethau o gofio eu bod yn cydbwyso cryn dipyn o gyfrifoldeb a ddirprwywyd iddynt â chadw golwg ar eu meysydd gwasanaeth penodol.
- Nid oedd gan yr un o'r cyfarwyddwyr corfforaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr gefndir proffesiynol yn y gwasanaethau cymdeithasol.
- Cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac yn nifer y plant sydd ar y gofrestr.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ymdrin â meysydd datblygu'r llynedd ac mae wedi eu gwau i'w amcanion ar gyfer gwella.

Ymatebodd y gwasanaethau i blant hefyd yn gadarnhaol i'r arolygiad o'u trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac mae ganddynt gynlluniau gweithredu clir ar waith.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Contractio a chomisiynu a'r pwyslais ar fesuriadau ansawdd.
- Diogelu oedolion a'r cysylltiad agos rhwng hynny a chomisiynu.
- Cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Cynhaliodd AGGCC sawl ymweliad safle o fewn gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys y gwasanaethau integredig gofal canolraddol, ymateb yn gynnar a gofal cartref sydd newydd eu datblygu, canolfan gymunedol integredig y gogledd, cyfarfodydd â bwrdd y rhaglen ailfodelu gofal cymdeithasol, comisiynu a chontractio a diogelu.

Roedd yr ymweliadau hyn yn ychwanegol at y rhaglen flynyddol o arolygiadau a gynhaliwyd ar gyfer lleoliadau gofal rheoledig y cyngor a'r gwasanaethau i oedolion a phlant.

Cynhaliodd AGGCC adolygiad cenedlaethol o rôl statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2012 ac roedd hynny'n cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr.

Ni fu modd i AGGCC gynnal ymweliadau safle nac arolygiadau o fewn y gwasanaethau i blant yn ystod y flwyddyn, ond bu modd monitro rhywfaint ar eu cynnydd drwy gyfarfodydd â phennaeth y gwasanaeth.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodir nifer o feysydd penodol y mae angen eu gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Trafodir yr hyn a gyflawnwyd gan y cyngor ynghylch y rhain yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn i ddod.

- Gallu uwch reolwyr ar lefel penaethiaid gwasanaethau, eglurder trefniadau llywodraethu ac adrodd rhwng cyfarwyddiaethau.
- Datblygiad y modelau gofal a gofal ychwanegol i gefnogi pobl â dementia.
- Cynnydd y rhaglen ailfodelu gofal cymdeithasol a chynnydd o ran datblygiad gwasanaethau integredig.
- Y cynnydd o ran ymateb i heriau recriwtio a chadw yn y gwasanaethau i blant yn wyneb cynnydd yn y llwyth gwaith.
- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol i bobl hŷn.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Cynhaliodd y cyngor ddadansoddiad o'r marchnadoedd cyfredol a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol er mwyn llywio'i drefniadau comisiynu a chontractio yn y dyfodol. Rhannwyd y dadansoddiad hwn â darparwyr er mwyn ceisio llunio a datblygu gwasanaethau gofal a modelau llety a chymorth y dyfodol. Ystyrir bod datblygu cynlluniau gofal ychwanegol yn hollbwysig, ynghyd ag adolygu darpariaeth fewnol gofal cartref a gofal preswyl y cyngor. Y bwriad yw symud oddi wrth fodel o "ofalu" tuag at fodel mwy ataliol o "gynorthwyo a chefnogi" oedolion i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r cyngor wedi nodi risgiau o ran ei allu i weithredu'r newidiadau y mae'n eu cynnig.

Mae gwaith sy'n parhau â'r gwasanaethau a gomisiynir a phartneriaid drwy fforymau darparwyr wedi helpu i ddatblygu ystod o safonau ansawdd sy'n cydfynd â'r ffioedd gofal. Mae'r safonau hyn bellach ar waith mewn cartrefi gofal ac yn y gwasanaethau gofal cartref. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar ansawdd a pherfformiad. Bu'r gwaith hwn yn allweddol o ran datblygu set ranbarthol o safonau ansawdd ar draws Bae'r Gorllewin.

Mae gwaith monitro contractau'n effeithiol o ran nodi nifer o wasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau mewnol sy'n ei chael yn anodd dangos tystiolaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu bod modd darparu cymorth a hyfforddiant wedi'u targedu.

Yn sgil Adolygiad Alder o wasanaethau anableddau dysgu, lluniodd y cyngor gontractau ag ymgynghorwyr eraill i weithio gyda defnyddwyr a'u teuluoedd. Arweiniodd hyn at ddatblygu strategaeth anableddau dysgu, ynghyd â'r blaenoriaethau a'r canlyniadau gofynnol. Mae strategaeth lety'r cyngor yn mynd ochr yn ochr â hyn.

Mae'r cyngor, gyda'i bartneriaid, wedi adeiladu ar y protocol pryderon cynyddol presennol, gan egluro cyfranogiad asiantaethau a phrosesau. Mae hyn yn golygu bod modd ymateb mewn ffordd fwy amserol, wedi'i thargedu, i wasanaethau sy'n peri pryder.

Mae system rheoli risg bellach ar waith yn y timau contractio a chomisiynu ac asesir ei gwerth drwy gydol y flwyddyn hon drwy gyfrwng adborth gan staff sy'n defnyddio'r system ar ei hansawdd. Mae hyn yn gysylltiedig â safonau ansawdd ac asesu risg yn barhaus. Mae'r drefn hon yn darparu proses fonitro a rhybuddio dda a fydd yn galluogi'r cyngor i ymdrin yn fwy effeithiol â gwasanaethau sy'n peri pryder drwy dargedu'r broses pryderon cynyddol yn effeithiol.

Mae datblygu gwasanaethau i bobl â dementia yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r cyngor.

Bydd graddfa'r datblygiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd yn rhoi pwysau ar allu'r cyngor i ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys datblygu darpariaeth gofal preswyl a gofal ychwanegol, integreiddio ag iechyd, rhaglen Bae'r Gorrlewin, y strategaeth teleofal, datblygu gwasanaethau galluogi preswyl ac ailfodelu gofal cartref. Tynnodd y cyngor sylw at y risg a'r buddion posibl i'w brosiectau ac mae wedi cydnabod y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Mae hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol i'r newidiadau hyn.

Plant

Mae'r cyngor yn datblygu fframwaith strategol ar gyfer gweithio'n integredig ac yn gobeithio sefydlu gwasanaethau mewn ardaloedd er mwyn datblygu gwasanaeth y Tîm o amgylch y Teulu. Bwriedir cysylltu hyn â'r prosiect cysylltu teuluoedd a datblygiad timau amlasiantaeth mewn canolfannau cymunedol.

Mae'r gwasanaeth cysylltu teuluoedd, ynghyd â'r gwasanaeth cymorth integredig i deuluoedd a'r tîm cymorth i deuluoedd yn darparu amrywiaeth dda o wasanaethau cymorth dwys, ac yn lleihau'r angen i ailatgyfeirio teuluoedd. Mae un pwynt mynediad ac un ffurflen atgyfeirio wrthi'n cael eu datblygu.

Roedd y gwasanaeth hwn i fod ar waith yn ystod 2012/13 ond oherwydd oedi cafodd ei ohirio tan haf 2013.

Mae Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Gonsortia Comisiynu ar gyfer Plant Cymru sydd wedi datblygu fframwaith sy'n defnyddio technoleg y we i wella ansawdd cydweddu lleoliadau a monitro contractau. Mae tystiolaeth o gyflawni canlyniadau da ac arbedion ariannol.

Mae'r cyngor hefyd yn rhan o'r prosiect cydweithio i wella yn Ne Cymru, ac mae'n rhan allweddol o ddatblygu nifer o brosesau recriwtio a'r gweithredu sydd ar droed i sicrhau unffurfiaeth wrth ddarparu gwasanaethau maethu.

Cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal 12% o 345 ddiwedd y llynedd i 387 ar 31 Mawrth 2013. Cynyddodd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant hefyd o 131 i 161 yn yr un cyfnod, cynnydd o 23%. Rhoddodd y cynnydd hwn bwysau sylweddol ar y timau o ran eu llwyth gwaith.

Meysydd o gynnydd

- Y datblygiadau parhaus o ran contractio a chomisiynu.
- Moderneiddio ei wasanaethau anableddau dysgu.
- Y fenter cysylltu teuluoedd.

Meysydd i'w gwella

- Mae angen i'r cyngor sicrhau bod modelau gofal a gofal ychwanegol yn y dyfodol yn gallu ymateb i anghenion pobl â dementia.
- Mae angen strategaeth ymgynghori glir a chynllun gweithlu i gefnogi ailfodelu gwasanaethau mewnol y cyngor.
- Bydd angen gwneud gwaith cwmpasu pellach ar y farchnad gofal cymdeithasol er mwyn ymateb i'r newidiadau a ddisgwylir mewn demograffeg, y galw yn y dyfodol a lefelau disgwyliadau o ran gwasanaethau.
- Sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol gan bennaeth y gwasanaethau i oedolion er mwyn cyflawni'r agenda drawsnewid eang. Mae hyn yn arwyddocaol yn sgil canfyddiadau'r adolygiad o rôl statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.

Cael cymorth:

Oedolion

Gall pobl bellach gael gafael ar wasanaethau ailalluogi cymunedol a gofal cymdeithasol i oedolion drwy'r ganolfan integredig rheoli atgyfeiriadau newydd. Y bwriad yw sicrhau bod galwyr yn cael ymateb medrus a phroffesiynol i'w hymholiadau. Mae'r pwynt mynediad hwn a'r systemau gwybodaeth sydd wedi eu hadolygu wedi lleihau nifer y bobl a fyddai o'r blaen wedi eu hatgyfeirio o ofal cymdeithasol i oedolion i wasanaethau ailalluogi ac fel arall.

Wedi comisiynu gwasanaeth broceriaeth gan sefydliad yn y trydydd sector, mae'r cyngor wedi darparu i bobl wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfeirio sy'n eu cyflwyno i ystod o wasanaethau cymunedol sydd wedi eu cynllunio i fodloni anghenion pobl nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwyster y cyngor.

Cynigir gwasanaeth cynghori a chefnogi ar adegau penodol yn ystod yr wythnos i bobl sydd ag anableddau dysgu ac i'w gofalwyr. Datblygwyd hyn yn unol â gwella gwybodaeth i'r cyhoedd ar draws gofal cymdeithasol i oedolion. Bu fforwm y gofalwyr yn ymwneud â datblygu rhywfaint o'r wybodaeth hon.

Mae Arolygwyr Rheoleiddio'n adrodd fod gwasanaeth gofal cartref presennol y cyngor yn darparu gwasanaeth da ac yn ymateb i anghenion defnyddwyr.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol o ran cefnogi pobl pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn, ynghyd â'r gwasanaeth ailalluogi, datblygu uned ailalluogi gymunedol chwe gwely a gwasanaeth ymateb cynnar y cyngor, yn cefnogi pobl naill ai i aros gartref, cael cyfnod o asesu cyn penderfynu am anghenion llety yn y dyfodol neu ymateb i argyfwng. Sefydlwyd cysylltiadau da â'r gwasanaeth ambiwlans i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach ac i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty heb fod angen.

Mae'r gwasanaeth teleofal yn darparu cymorth ychwanegol a sefydlwyd cysylltiadau da ag asiantaethau sy'n bartneriaid ar y safle. Mae'r safle sydd yn Nhrem y Môr yn adnodd pwysig i'r cyngor ac mae'n gobeithio y bydd ar gael yn amlach drwy agor fin nos ac ar benwythnosau.

Plant

Mae'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn cysylltu â'r tîm sirol, sydd ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol, ac yn gwneud atgyfeiriadau iddo ynglŷn â materion diogelu a lles plant.

Mae'r cyngor yn adolygu sut i ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth i blant a phobl ifanc sy'n mynd i fod yn derbyn gofal, a hefyd sut y gall sicrhau ei fod yn fwy hygyrch drwy'r prosiect "Doethwaith" i blant sy'n derbyn gofal. Y nod yn y dyfodol yw symud tuag at weithredu'n seiliedig ar y we. Mae gofyn i'r prosiect hefyd sicrhau y cofnodir y penderfyniadau a wneir yn glir ac y dangosir tystiolaeth o ymweliadau statudol yn ffeiliau'r plant a'r bobl ifanc.

Mae gwaith yn parhau hefyd i wella cynllunio sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a sicrhau yr ystyrir eu barn wrth gynllunio gofal. Mae'r cyngor yn gobeithio cynnwys cynllunio sefydlogrwydd yn adroddiadau'r gweithwyr cymdeithasol a'r rheolwyr tîm cyn adolygiadau. Mae'r staff i gyd yn glir ynglŷn ag arwyddocâd cynllunio sefydlogrwydd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phwysigrwydd cynllunio adolygiadau'n dda a sicrhau eu bod yn brydlon.

Mae'r cyngor yn adrodd y bu gostyngiad yn ei berfformiad o ran cwblhau asesiadau cychwynnol. Priodolir hynny i'r cynnydd yn y llwyth gwaith am fod cynnydd wedi bod yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac oherwydd achosion amddiffyn plant.

Y llynedd adroddodd y cyngor am welliannau arwyddocaol yn ei berfformiad o ran cwblhau asesiadau craidd o fewn yr amserlenni a bennwyd a chynnal cyfran dda o grwpiau craidd yn unol â'r amserlen. Ond gwelwyd gostyngiad eleni yn ei berfformiad.

Er y bu gwelliannau arwyddocaol i'w berfformiad o ran ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal, cydnabyddir bod angen gwella eto. Er bod y cyngor yn hyderus y cynhelir y rhan fwyaf o ymweliadau'n gyson a bod plant yn cael eu gweld, mae ysgrifennu adroddiadau'n brydlon ar ôl yr ymweliadau'n dal i fod yn broblem. Mae'r cyngor yn adrodd bod llai na thri chwarter yr ymweliadau statudol gofynnol â phlant sy'n derbyn gofal wedi eu cwblhau'n unol â'r gofynion statudol.

Meysydd o gynnydd

- Mae'r gwasanaeth a ddatblygwyd yn Nhrem y Môr yn adnodd pwysig i'r cyngor ac yn cynnig mynediad gwell i amryw o wasanaethau.

Meysydd i'w gwella

- Dylid ystyried datblygu hunanatgyfeiriadau ar-lein drwy wefan y cyngor.
- Dylai'r cyngor ystyried y ffordd orau o greu un cofnod integredig electronig i gofnodi manylion mynediad, gofal a chymorth i ddefnyddwyr.
- Gwella perfformiad a chofnodi ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal.
- Lleddfu effaith y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac amddiffyn plant yn llwyth gwaith gweithwyr.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Gwnaeth y cyngor gynnydd o ran datblygu gwasanaeth dementia arbenigol mewnol. Mae arolygwyr rheoleiddio'n adrodd bod angen datblygu'r gwasanaeth hwn ymhellach er mwyn iddo fod yn fwy effeithiol. Mae'r gwasanaeth ailalluogi preswyl yn dal i ddatblygu ac ehangu, a bu'n llwyddiannus o ran cynorthwyo pobl i fynd yn ôl adref.

Yn ystod 2012 comisiynodd y cyngor adolygiad annibynnol o wasanaethau anabledau dysgu. Er i'r cyngor gael canmoliaeth am ansawdd ymarfer a'r gwelliannau i ansawdd bywyd pobl, nodwyd bod modelau gwasanaeth anhyblyg, mewn rhai achosion, yn llesteirio annibyniaeth pobl ac yn rhoi gormod o gymorth. Mae'n amlwg fod angen cyflwyno modelau gweithio mwy hyblyg yn y sector. Mae argymhellion yr adroddiad wedi eu cynnwys mewn cynllun datblygu anabledau dysgu ac mae prosiect penodol yn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â hyn.

Cydnabyddir heriau gweithio'n integredig ag iechyd. Sefydlwyd trefniadau cydleoli yn y tîm cymorth cymunedol bellach, ond er hynny, mae cynnydd tuag at gydweithio'n dal i fod yn araf.

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd arwyddocaol o ran datblygu cyfleoedd dydd i bobl hŷn. Bellach, mae naw caffi cymunedol mewn cymunedau lleol. Cefnogir y naw caffi gan wasanaeth cyfeillio sydd ar waith ers mis Mehefin 2012.

Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran ailfodelu ei wasanaethau gofal mewnol, gyda'r bwriad o weithio gyda darparwr gofal cymdeithasol annibynnol i ailfodelu gwasanaethau gofal cartref a phreswyl. Adolygwyd y prosiect ac mae bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth gofal cartref mewnol. Canolbwyntiodd y cyngor ei ymdrechion ar reoli darpariaeth gofal â'r adnoddau

sydd ganddo ar hyn o bryd. Mae'r cyngor yn cydnabod bod pwysau cyllidebol parhaus yn ofid gan fod gorwariant a ragamcanir ar y gyllideb gofal cartref yn bygwth y gwasanaeth.

Yn ogystal â hynny, mae gwariant o ran cyllideb y sector annibynnol wedi cynyddu a hefyd wedi arwain at orwario. Daeth y cyngor i'r casgliad fod angen rhoi sylw mawr i adfer y sefyllfa'n gyffredinol gan nad yw'n gynaliadwy yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae'r cyngor, gyda'i bartner ieuchyd, wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi'r Mesur Iechyd Meddwl ar waith.

Mae arolygwyr rheoleiddio yn adrodd bod angen gwneud gwelliannau i wasanaethau preswyl mewnol y cyngor i bobl hŷn. Mae hynny'n cynnwys darparu goruchwyliaeth briodol i staff gofal, gwella ystod yr asesiadau risg, archwiliadau cynlluniau gofal, lefelau priodol o weithgarwch mewn unedau dementia a throsolwg mwy effeithiol dros fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Plant

Cafodd Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr adroddiad arolygu cadarnhaol gan AGGCC. Bu llawer o recriwtio ac mae'r asiantaeth yn dal i ddenu gofalwyr o asiantaethau maethu annibynnol.

Datblygodd y cyngor ystod dda o wasanaethau gadael gofal a gwasanaethau ieuencid. Mae'r ganolfan galw-i-mewn Just @sk Plus yn effeithiol iawn o ran cynorthwyo pobl ifanc drwy gynnig cyngor ar waith, ieuchyd a chynghori.

Mae ystod o wasanaethau ychwanegol wedi'u targedu gan gynnwys gwasanaeth gadael gofal y cyngor, gwasanaeth digartrefedd i bobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed, a gwasanaethau rheoli achosion i bobl ifanc 16 mlwydd oed.

Mae'r cyngor yn dal i ymgysylltu'n dda â phobl ifanc. Cafwyd tri chyfarfod ymgynghori â phobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd diwrnod Dweud eich Dweud ym mis Mawrth 2013.

Menter leol yw'r gwasanaeth cysylltu teuluoedd sydd wedi mireinio ymhellach ffyrdd gwahanol o weithio'n fwy effeithiol â'r teuluoedd sydd â'r anawsterau mwyaf cronig a chymhleth ac sy'n defnyddio amryw o wasanaethau amlasiantaeth. Mae'n darparu ymyriadau amlasiantaeth dwys wedi eu seilio ar dystiolaeth yn debyg i fodel y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae'r cyngor wedi gallu dangos tystiolaeth o effaith gadarnhaol datblygu'r gwasanaeth hwn ar waith gyda rhai teuluoedd.

Cafodd tair uned gofal preswyl i blant y cyngor i gyd arolygiadau cadarnhaol yn ystod 2012/13 gan AGGCC.

Meysydd o gynnydd

- Gwasanaethau ailalluogi.

- Gweithio integredig ag iechyd.
- Gwaith dwys â theuluoedd.

Meysydd i'w gwella

- Parhau â'r cynnydd a wnaed o ran datblygu gwasanaethau integredig.
- Mynd i'r afael â'r heriau ariannol yn y farchnad gofal cartref.
- Mynd i'r afael a'r diffygion o ran rheoleiddio a nodwyd mewn gwasanaethau preswyl mewnol.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae arolygwyr rheoleiddio'n cadarnhau bod trefniadau diogelu oedolion y cyngor yn gadarn, wedi eu sefydlu ac yn parhau i geisio a chyflawni perfformiad gwell. Mae'r ymgais i gynnwys oedolion bregus yn fwy gweithredol ym mhob agwedd ar yr atgyfeirio, yr ymchwilio a'r canlyniad yn tystio i benderfyniad y tîm diogelu i ddatblygu a gwella canlyniadau i bobl yn barhaus.

Mae'r cyngor yn cydnabod gwerth gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn sbarduno dealltwriaeth gyffredin ac ymagwedd gyson at ddiogelu ar draws gofal cymdeithasol i oedolion a lleoliadau iechyd. Mae oedolion bregus yn elwa ar y parhad hwn ac yn cael cymorth cymesur, tryloyw a theg.

Cynigiwyd cyfle i ofalwyr i fynychu sesiynau galw-i-mewn lle gallant gael asesiad gofalwr a chynhaliwyd y rhain yng nghanolfan y gofalwyr a hefyd y ganolfan adnoddau i bobl ag anghenion cymhleth. Yn sgil hynny, bu cynnydd yn nifer y gofalwyr sy'n cael cynnig asesiad ac yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd.

Adolygodd y grŵp monitro taliadau uniongyrchol ei delerau a'i amodau er mwyn adlewyrchu'n fwy effeithiol y symud tuag at fwy o gymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion, ac yn sgil y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles newydd. Mae'r grŵp yn edrych ar adolygiad o bolisi, gweithdrefnau a threfniadau ariannol ar gyfer taliadau uniongyrchol ac mae hefyd yn cydlynu ffordd fwy systematig o ddatblygu cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion. Mae nifer y taliadau uniongyrchol yn parhau i godi.

Mae rhaglen o ymweliadau gan aelodau bellach ar waith â phob cartref gofal yn ardal y cyngor yn benodol er mwyn gofyn barn y defnyddwyr. Bydd hyn yn ychwanegol at y gwaith cyson sy'n digwydd i fonitro contractau gwasanaethau a gomisiynir. Ni all y tîm sy'n monitro contractau ar hyn o bryd wneud gwaith thema â'r gwasanaethau oherwydd capasiti. Cytunodd y cyngor yn ddiweddar i ychwanegu un swydd amser llawn at y tîm.

Plant

Cafodd gwelliannau mewn perfformiad eu cynnal o ran amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant. Ystyria'r cyngor mai ymdrechion yr holl asiantaethau i wella presenoldeb yw'r prif ffactor yn hyn o beth.

Er mwyn cefnogi gofalwyr, mae'r cyngor wedi adolygu strwythur y tîm cymorth i deuluoedd ac mae ymwybyddiaeth gweithwyr cymdeithasol o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau wedi cynyddu. Parheir i ddarparu gwasanaethau ar benwythnosau. Mae ffurflenni atgyfeirio ar benwythnosau a system gyflenwi yn golygu y bu modd cynnal ymweliadau'n ddiogel ar benwythnosau.

Bu cynnydd mewn achosion agored ar draws y timau diogelu ac o'r herwydd mae gan lawer o weithwyr cymdeithasol fwy o lwyth achosion.

Yn ystod 2012/13 cynhaliwyd cyfran uchel o gynadleddau cychwynnol achosion amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl trafod y strategaeth a chynhaliwyd y rhan fwyaf o'r grwpiau craidd cychwynnol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl y gynhadledd achos amddiffyn plant gychwynnol yn unol â disgwyliadau'r asiantaeth a Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd adolygiadau amddiffyn plant o fewn amserlenni statudol. Teimla'r cyngor fod hyn yn dipyn o gamp yng nghyd-destun llwyth gwaith cynyddol a'r pwysau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â hynny ar y gwasanaeth. Mae hyn yn arwydd o berfformiad da.

Cyhoeddwyd nifer o adolygiadau o achosion difrifol eleni, ac mae hynny wedi tynnu sylw at nifer o feysydd i'w datblygu a gwaith amlasiantaeth gwell.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad parhaus ei weithrediadau diogelu .
- Ymweliadau aelodau â gwasanaethau a gomisiynir.
- Cynadleddau amddiffyn plant amserol.
- Adolygiadau amddiffyn plant.

Meysydd i'w gwella

- Monitro effaith cynnydd yn llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol plant.

GALLU

Cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi datblygu canllaw e-arfer i weithwyr cymdeithasol. Mae'r canllaw hwn yn rhoi i weithwyr cymdeithasol wybodaeth am safonau ymarfer, prosesau a gweithdrefnau a fframweithiau cyfreithiol.

Mae rhaglen “Doethwaith” wrthi’n cael ei gweithredu, ac mae rhywfaint o waith treialu ar arferion a phrosesau newydd yn unol â chanfyddiadau'r rhaglen. Roedd datblygu adolygiadau cymesur yn argymhelliad uniongyrchol, ac mae hynny wedi creu rhywfaint o gapasiti i'r staff.

Cynhaliwyd archwiliad gwasanaeth cyfan o arferion rheoli gofal ar draws y timau gofal cymdeithasol i oedolion. Roedd yr archwiliad yn gyfle i grŵp o reolwyr adolygu arferion rheoli gofal presennol yn erbyn cyfres o safonau. Roedd canlyniad yr archwiliad yn ffafriol a gwelwyd gwelliant amlwg mewn ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, lle rhoddir pwyslais ar ganlyniadau. Bydd y darn hwn o waith yn feincnod i'r cyngor allu datblygu arfer sy'n rhoi mwy o bwyslais ar waith cymdeithasol er mwyn datblygu system a diwylliant archwilio ansawdd mwy cadarn.

Cydnabyddir y bydd rôl gwaith cymdeithasol yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i fwy o weithwyr cymdeithasol ddod yn rhan o dimau amlddisgyblaethol.

Mae rheoli absenoldebau oherwydd salwch yn parhau i fod yn her ar draws y gwasanaeth ac mae'r cyngor yn adolygu'r ffordd y caiff hyn ei reoli'n gorfforaethol.

Plant

Drwy gydol 2012/13 arhosodd gweithlu'r plant yn sefydlog ar y cyfan, ond yn ystod chwarter olaf y flwyddyn fe adawodd nifer o weithwyr cymdeithasol a rheolwyr y gwasanaeth.

Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'w weithlu. Cynigiwyd hyfforddiant ar lefel briodol i'w hanghenion i staff a gofalcwyr maeth ar draws y gwasanaeth. Mae cynllun hyfforddiant y sir yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant.

Mae'n rhaid i staff fanteisio ar raglenni hyfforddi craidd ac unrhyw hyfforddiant a gynhelir yn sgil yr hyn a ddysgir o adolygiadau achosion difrifol, a newidiadau lleol a chenedlaethol o ran polisi, gweithdrefnau a deddfwriaeth. Darperir hyfforddiant craidd ar sail rhaglen dreigl. Darperir saith digwyddiad hyfforddi gorfodol i ofalcwyr maeth bob tair blynedd ac mae meysydd newydd yn cael eu hystyried. Cefnogir staff hefyd i fanteisio ar hyfforddiant arbenigol arall er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau yn eu rôl a'u swyddogaeth.

Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd ar ffeiliau achos. Mae'r archwiliadau hyn wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag arfer o safbwynt achosion unigol lle cymerwyd camau adfer. Mae archwiliadau amlasiantaeth hefyd wedi tynnu sylw at achosion lle gellir dysgu gwersi er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r cyngor wedi cydnabod yr angen i wella systemau a phrosesau ar gyfer lledaenu'r dysgu sy'n deillio o archwiliadau i reolwyr a staff rheng flaen. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn y flwyddyn sydd i ddod.

Parheir i oruchwylio staff yn ffurfiol ac anffurfiol. Mae'n rhaid i staff gwblhau asesiadau craidd cyn yr amser penodedig er mwyn rhoi amser i reolwyr eu

gwirio, rhoi adborth arnynt a chymeradwyo'r asesiadau chwblhau asesiadau a rhoi amser i'r gweithiwr cymdeithasol rannu'r asesiad â'r teulu. Mae gwaith ar y gweill i gryfhau rôl yr uwch ymarferydd er mwyn gallu mentora, cydweithio a chefnogi'r tîm.

Meysydd o gynnydd

- Y canllaw e-arfer i weithwyr cymdeithasol.

Meysydd i'w gwella

- Dyfeisio system gadarn i roi gwybod i staff am ganlyniadau archwiliadau yn y gwasanaethau i blant a monitro'r newidiadau sydd eu hangen.
- Ymdrin â heriau recriwtio a chadw yn y gwasanaethau i blant yn wyneb y cynnydd yn y llwyth gwaith.
- Mynd i'r afael ag absenoldebau staff oherwydd salwch.

Darparu Cyfeiriad:

Oedolion

Bu newidiadau arwyddocaol ymhlith yr uwch reolwyr a daeth cyfarwyddwr lles corfforaethol dros dro i'w swydd ym mis Mai 2012 a phrif weithredwr newydd ym mis Medi 2012. Mae cyfarwyddwr ardal ar y cyd newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn parhau i weithio'n agos gyda gofal cymdeithasol i oedolion i ddatblygu a darparu gwasanaethau integredig. Trosglwyddwyd rôl statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol i gyfarwyddwr corfforaethol y gwasanaethau i blant sydd hefyd yn gyfarwyddwr addysg statudol. Mae'r prif weithredwr wrthi'n ymgynghori ar adolygiad rheoli a chyhoeddir strwythur newydd yn ystod y flwyddyn.

Mae Cydweithio Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn dal i ddatblygu a chafwyd cynnydd arwyddocaol o ran ymagweddau ar y cyd at wasanaethau anableddau dysgu, iechyd meddwl a phobl hŷn. Mae prosiectau hefyd sy'n goruchwyllo comisiynu a monitro contractau a datblygiadau yn y gwasanaethau i blant.

Cynhaliodd AGGCC adolygiad cenedlaethol o rôl statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2012. Nododd yr adolygiad nad oedd gan yr un o gyfarwyddwyr corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr gefndir proffesiynol yn y gwasanaethau cymdeithasol, ac o'r herwydd bod gwytnwch y trefniadau strwythurol yn dibynnu ar arbenigedd proffesiynol penaethiaid y gwasanaethau. Mae hyn yn ogystal ag ysgwyddo cyfrifoldebau sylweddol wedi'u dirprwyo dros yr agenda weithredol a strategol yn eu meysydd gwasanaeth.

Mynegodd uwch swyddogion ansicrwydd hefyd ynglŷn â'r trefniadau adrodd rhwng y cyfarwyddiaethau, eglurder atebolrwydd, y cyswllt rhwng arweinwyr strategol a gwasanaeth a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a throsolwg dros feysydd a ddirprwywyd. Bydd yn rhaid ymdrin â hynny.

Cydnabuwyd bod gan yr awdurdod systemau corfforaethol cryf ac aeddfed sy'n rhoi trosolwg dros weithrediadau'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cefnogi'r agenda gwella gwasanaethau. Datblygwyd trefniadau craffu er mwyn adlewyrchu'r agenda plant a phobl ifanc a'r agenda iechyd a lles. Datblygwyd systemau cryf sy'n cynorthwyo cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol i dderbyn gwybodaeth berthnasol, cymorth a heriau oddi wrth rannau eraill o'r sefydliad, a darparu'r rhain iddynt hwythau, ynglŷn â materion y gweithlu a pherfformiad.

Daeth adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2012/13 i'r casgliad fod y cyngor yn parhau i wella ei drefniadau i gyflawni gwelliannau, datblygu ffordd gryfach a mwy cytbwys o werthuso ac adrodd am ei berfformiad. Yn ystod 2011/12 gwnaeth y cyngor gynnydd da o ran cyflawni ei amcanion gwella.

Mae'r cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n gwerthuso perfformiad ac yn sicrhau bod gwella'r gwasanaeth yn cyd-fynd yn well â chynllunio ariannol. Mae trefniadau'r cyngor i gefnogi gwelliant yn gadarn, er ei fod yn wynebu cyfnod o newid pellach ymhlith yr uwch reolwyr.

Meysydd o gynnydd

- Mae ailfodelu gofal cymdeithasol i oedolion yn sicrhau canlyniadau da i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Meysydd i'w gwella

- Mae angen ymdrin â'r trefniadau adrodd rhwng y cyfarwyddiaethau, eglurder atebolrwydd, y cyswllt rhwng arweinwyr strategol a gwasanaeth a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, a throsolwg dros feysydd a ddirprwywyd.
- Adolygu'r capasiti a'r gofynion sydd ar benaethiaid gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael iddynt.